Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cyngor Celfyddydau Cymru

# Gweithdrefnau Diogelu

Medi 2022

# Cynnwys


Gweithdrefnau Diogelu Cyngor Celfyddydau Cymru ........................... 1
1. Trefnu digwyddiadau mawr lle mae'r cyhoedd yn bresennol ..... 2
2. Gweithdai a pherfformiadau ........................................................ 3
3. Monitro polisïau a gweithdrefnau cyrff a ariannwn ....................... 4
4. Myfyrwyr profiad gwaith ................................................................ 4
5. Gweithio mewn ysgolion ................................................................ 5
Cofnodi a chyfeirio ymlaen ................................................................ 7
Ffotos a chaniatâd ............................................................................. 7
Honiadau yn erbyn ein staff ............................................................... 8
Honiadau yn erbyn staff sefydliadau allanol ....................................... 9
Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ...................................................... 9


# Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Recriwtio Cyfle Cyfartal a chroesawn geisiadau gan bawb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd eich dewis iaith yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

# Gweithdrefnau Diogelu Cyngor Celfyddydau Cymru

Dyma ddisgrifio'r gweithdrefnau y dylech eu dilyn wrth:

- trefnu digwyddiadau mawr lle mae'r cyhoedd yn bresennol
- mynd i weithdai a pherfformiadau
- monitro polisïau a gweithdrefnau cyrff a ariannwn
- honiadau yn erbyn ein staff
- honiadau yn erbyn staff sefydliadau allanol
- gweithio mewn ysgolion

# 1. Trefnu digwyddiadau mawr lle mae'r cyhoedd yn bresennol

Trefnwn ddigwyddiadau mawr lle mae'r cyhoedd yn bresennol gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Rhaid rhoi'r gweithdrefnau diogelu ar waith ar gyfer ein staff a phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Byddwn yn:

- cynnal asesiadau perygl fel bod y digwyddiad yn ddiogel a hygyrch i'n staff a phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus
- ymgyfarwyddo â'r gweithdrefnau diogelu
- arddangos ein gweithdrefnau diogelu
- dynodi aelod o staff a fydd yn gyfrifol am fonitro a chofnodi unrhyw weithdrefnau diogelu ar gyfer y digwyddiad
- trefnu bod llyfr digwyddiadau i gofnodi a gweithredu ar unrhyw ddigwyddiadau

Mewn digwyddiad rhaid ichi wneud y canlynol:

- peidio byth â bod ar ei ben ei hun gyda phlentyn, person ifanc neu oedolyn bregus
- os daw plentyn atoch, o bosibl un ar goll, rhaid aros yn llygad y cyhoedd
- peidio â rhegi neu byth yn defnyddio iaith fudr neu ddifrïol o flaen plant, pobl ifanc ac oedolion bregus
- wrth dynnu lluniau, sicrhewch fod gennych ganiatâd y rhiant/gwarcheidwad a llenwi'r ffurflen ganiatâd
- os gwelwch rywbeth o bryder ichi, rhaid dweud wrth yr aelod o staff cyfrifol am ddiogelu

## 2. Gweithdai a pherfformiadau

Pan ewch i weithdai a pherfformiadau fel rhan o'ch gwaith, cofiwch eich cyfrifoldebau diogelu. Fel aelod o'r gynulleidfa neu'n gyfranogwr, dylech:

- arfer iaith ac ymddygiad priodol o flaen plant a phobl ifanc
- peidio byth â bod ar ben ei hun mewn ystafell gyda phlant a phobl ifanc
- sicrhau bod nifer digonol o diwtoriaid i'r plant a'r bobl ifanc (a ddylai fod yn 1:8 ond mae'n dibynnu ar oed y plant)

Rhan o'n gwaith monitro sefydliadau a ariannwn yw gofyn iddynt fod yn gyfarwydd â'u Polisi Diogelu. Gallwch ofyn i weld copi ar unrhyw adeg.

Dylech gofnodi pan fo'r canlynol yn digwydd mewn gweithdai sefydliadau:

- gweithio'n unigol yn gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus
- cychwyn cyffwrdd â phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Os y plentyn sy'n cychwyn cyffwrdd mewn lle agored, nid yw hynny'n fater o ddiogelu. Gyda thiwtoriaid ym maes drama a dawns, gwelwch adran 7
- ni ddylai staff byth gynnig lifft i blentyn. Os yw'n hollol angenrheidiol, rhaid i uwch aelod o'r staff gael gwybod i ble yr ânt, gyda phwy y maent a phryd y cyrhaeddant
- ni ddylai oedolion a phlant byth rannu'r un ystafelloedd gwisgo. Gall plant, pobl ifanc ac oedolion bregus o'r un rhyw rannu'r un ystafell wisgo ond bob amser gyda'u rhieni neu aelod o staff a gafodd ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- unrhyw ddefnydd o iaith amhriodol neu fudr o flaen plant, pobl ifanc ac oedolion bregus
- bod nifer digonol o diwtoriaid i blant, pobl ifanc ac oedolion bregus

Dylech ofyn am ohirio gweithdy os nad oes nifer digonol o diwtoriaid. Os gwelwch ymddygiad amhriodol, rhaid dweud wrth yr un sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn bregus (fel athro, gweithiwr ieuenctid neu ofal). Os yr un â chyfrifoldeb cyfreithiol yw'r broblem, dylech ddweud wrth aelod arall o staff yn y sefydliad. Cofnodwch yr hyn a welsoch a'ch ymateb a rhoi gwybod i'ch rheolwr a'n Swyddog Diogelu rhag ofn bod y gwaith diogelu'n parhau a chwithau'n rhan o hynny.

Os gwelwch gam-drin amlwg, rhaid dweud ar unwaith wrth Gyfarwyddwr neu Gadeirydd y sefydliad.

## 3. Monitro polisïau a gweithdrefnau cyrff a ariannwn

Nid y Cyngor sy'n cymeradwyo polisïau neu weithdrefnau diogelu sefydliadau ond gallwn eu trafod a chynnig cyngor. Dylem bob amser wirio bod gan sefydliadau bolisïau a gweithdrefnau sy'n ddiweddar ac a adolygir yn rheolaidd gan eu bwrdd.

Gallem:

- gwirio pwy sydd â chyfrifoldebau diogelu yn y sefydliad ac ar y bwrdd rheoli
- gwirio pryd yr adolygwyd ac y diweddarwyd ddiwethaf eu gweithdrefnau diogelu (awgrymwn mai blynyddol y dylid eu diweddaru a'u cymeradwyo gan y bwrdd)
- gofyn pa hyfforddiant a ddigwyddodd ac sydd ar y gweill
- gwirio ar sut mae sefydliadau'n cadw llygad ar y datblygiadau yn y maes

Mae gwybodaeth ddefnyddiol i sefydliadau yma:

**Cydweithio i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu:** Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu | LLYW.CYMRU

## 4. Myfyrwyr profiad gwaith

Weithiau gweithiwn gyda phobl ifanc 14-18 oed sydd ar leoliad profiad gwaith. Lles y person ifanc yw'r flaenoriaeth o hyd. Os gweithiwch gyda pherson ifanc felly, rhowch wybod bob amser i aelod arall o staff am ble yr ydych a pha waith y mae'r person ifanc yn ei wneud.

# 5. Gweithio mewn ysgolion

Ein cyfrifoldeb yw arwain gwaith Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, rhaglen gyda Llywodraeth Cymru. Yno cydweithiwn yn uniongyrchol ag ysgolion a lleoliadau gofal plant eraill. Rydym hefyd yn contractio ymarferwyr celfyddydol unigol sy'n gweithio mewn ysgolion a lleoliadau.

Wrth recriwtio'r ymarferwyr, dilynwn ein polisïau a'n gweithdrefnau diogelu. Bydd pob ymarferydd a ddewiswn yn cael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn cael ei baru ag ysgol. Bydd cadarnhau'r penodiad yn ddibynnol ar wiriad boddhaol. Ni chânt gysylltu ag ysgol cyn gwneud y gwiriad. Ni chontractiwn â neb sy'n berygl bosibl i blant.

Weithiau mewn partneriaeth y bydd yn well dilyn gweithdrefnau ein partneriaid os ydynt yn diogelu'n well.

Fel rhan o'n rhaglen, bydd ysgolion neu leoliadau hefyd yn contractio ymarferwyr creadigol eraill hefyd i weithio gyda disgyblion gyda chymorth yr ymarferydd sydd eisoes dan gontract. Yma, cyfrifoldeb yr ysgol yw dilyn ei pholisi a'i gweithdrefnau diogelu neu, os yw'n fwy priodol, rai'r awdurdod lleol, Consortia Addysg Ranbarthol neu gorff rhieni.

Yr ysgol neu'r lleoliad sy'n gyfrifol am gynnal gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ymarferwyr creadigol cyn eu contractio drwy eu gweithdrefnau arferol.

Os bydd problem gyda gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ymarferydd creadigol (fel trosedd yn ymddangos), dylai ysgolion neu leoliadau drafod y mater gyda'n staff ar unwaith i gytuno ar beth i'w wneud. Bydd y drafodaeth dim ond gyda'r swyddog ag awdurdod i weld tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd yn aros yn gyfrinachol. Caiff yr ymarferydd creadigol wybod am y broses yn ystod y camau cychwynnol.

Ni ddylid gadael ymarferwyr creadigol byth ar eu pen eu hunain gyda disgyblion unigol. Yn unol ag amcanion y rhaglen, dylai athrawon a staff y lleoliadau fod yn rhan o'r sesiynau ymarferol a phob cyfarfod rhwng y gweithwyr creadigol a'r disgyblion, gan gynnwys y trafodaethau gwerthuso a myfyrio drwy'r prosiect ac ar ei ddiwedd. Mae'n bosibl mai aelod arall o staff fydd yn briodol i hwyluso trafod yn agored. Ond os hoffai'r ysgol/lleoliad/disgyblion gael y disgyblion a'r ymarferydd creadigol yn unig yn y cyfarfod gwerthuso, awgrymwn y canlynol:

- dogfennu hyn yn ffordd benodol o weithio a bod aelodau eraill o staff yn gwybod pryd a ble mae'r sgwrs yn digwydd
- sicrhau bod y disgyblion yn hapus i'r sgwrs ddigwydd heb unrhyw oedolion yn bresennol ar wahân i'r ymarferydd creadigol
- sicrhau bod wastad rhagor nag un plentyn yn yr ystafell
- cytuno â'r ymarferydd creadigol pa mor hir y bydd y sgwrs yn para a dychwelyd i'r grŵp ar yr adeg yna
- annog yr ymarferydd creadigol i feddwl sut y gellid camddehongli ei ymarfer gan eraill – dylai er enghraifft osgoi gweithio mewn corneli anghysbell neu gyda llenni ar gau heb reswm

## Cofnodi a chyfeirio ymlaen

Os oes gan athro neu aelod arall o staff bryder am ymarferydd creadigol, asiant creadigol neu aelod o dîm yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, dylent ddilyn gweithdrefnau'r ysgol neu awdurdodau lleol i gofnodi eu pryder. Ond argymhellwn hefyd iddynt ddweud wrth Reolwr Rhaglen Cynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol.

## Ffotos a chaniatâd

Os hoffech dynnu lluniau neu ffilmio disgyblion ym mhrosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol, rhaid cael caniatâd y rhieni neu'r gofalwyr cyfreithiol. Dilynwch bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

Efallai y dymunwn ddefnyddio'r lluniau i hyrwyddo'r gwaith. Rhaid inni gael caniatâd yr ysgol i wneud hyn hefyd. Mae gennym ffurflen ganiatâd syml a rhaid i bob ysgol ei llenwi. Noda'r ffurflen fod yr ysgol:

- wedi cael caniatâd i dynnu'r lluniau gan y rhieni neu'r gofalwyr cyfreithiol
- yn ein caniatáu i ddefnyddio'r lluniau

Gallwn ddefnyddio'r lluniau at ragor nag un pwrpas a chadw copïau am gyfnod hir. Rhaid cofnodi'r wybodaeth yma ar unrhyw ffurflen y mae'r ysgol yn ei llofnodi. Yr arfer gorau yw i'r caniatâd bara am ddim rhagor na dwy flynedd. Gallwn ddim ond defnyddio'r lluniau at y dibenion y mae'r ysgol wedi rhoi caniatâd amdanynt.

Rhaid i asiantau creadigol ac ymarferwyr creadigol a dynnodd luniau o ddisgyblion fel rhan o'u prosiect sicrhau bod yr ysgol a'n staff yn gwybod amdanynt a'u defnydd ac na ddylid eu cadw ar gamerâu personol, er enghraifft, ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

# Honiadau yn erbyn ein staff

Os gwneir honiad gan rywun am amheuaeth o gam-drin yn erbyn ein staff, rhaid ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu fel cais am ymchwiliad dan weithdrefnau diogelu. Os yw ymddygiad cydweithiwr neu unrhyw oedolyn tuag at blant yn achosi pryder:

- peidiwch â diystyru eich pryderon
- peidiwch â herio'r person
- trafodwch eich pryder gyda'ch rheolwr a'n Swyddog Diogelu neu'r Pennaeth Adnoddau Dynol
- peidiwch byth ag oedi wrth drosglwyddo eich pryder i rywun a all ddechrau'r broses o gynnal ymchwiliad. Bydd pobl yn eich cymryd o ddifrif bob amser
- peidiwch â phoeni y gallech fod yn anghywir. Mae'n well bob amser i drafod y peth gyda rhywun profiadol sydd â'r cyfrifoldeb i asesu'r sefyllfa

Pan gyrhaeddir y trothwy o niwed sylweddol (bydd y Swyddog Diogelu yn eich cynghori am hyn), cynhelir ymchwiliad gan yr asiantaethau statudol.

Dylid rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i'n haelod o staff dan amheuaeth i'w helpu i ddeall y pryderon. Dylai'r aelod o'n staff glywed am y prosesau a chanlyniad unrhyw ymchwiliad a'r goblygiadau o ran disgyblu. Dylid cynnal yr ymchwiliad mor fuan â phosibl. Dylid rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am y pryderon, y prosesau, y canlyniadau a'r broses gwyno.

Rhaid asesu'n drylwyr bob agwedd a chyrraedd casgliad pendant. Rhaid gwerthuso a rheoli'n effeithiol y perygl o niwed i blant, pobl ifanc ac oedolion bregus gan yr un dan sylw gan yr ymchwiliad. Rhaid ystyried y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn bregus sy'n rhan o'r honiadau ac unrhyw blant eraill yng nghartref, gwaith neu fywyd cymunedol yr unigolyn.

Disgyblir y person os yw'r ymddygiad yn gyfwerth â chamymddwyn neu gamymddygiad dybryd (gweler Gweithdrefnau Disgyblu yn llawlyfr y staff).

Os na fydd yn bosibl erlyn y person, efallai y dewiswn ddilyn ein gweithdrefnau diogelu neu ddisgyblu.

Y Swyddog Diogelu fydd yn goruchwylio pob ymholiad i'r honiadau a chysylltu â'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol ac eraill sydd ynghlwm. Bydd hefyd yn mynd i gyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw a rhoi gwybod i staff fel y bo'n briodol. Y Swyddog fydd y person cyswllt rhwng y Cyngor a chyrff allanol.

# Honiadau yn erbyn staff sefydliadau allanol

Dylech drafod gyda'ch rheolwr neu'n Swyddog Diogelu unrhyw bryder am gam-drin gan staff sefydliadau allanol a phenderfynu ar beth i'w wneud. Efallai bod y pryderon yn is na'r trothwy o niwed sylweddol ond rhaid dweud am y pryder wrth uwch aelod yn y sefydliad arall.

Os yw'r pryder uwchlaw'r trothwy o niwed sylweddol, dylech roi gwybod i'n Swyddog Diogelu. Bydd yn trafod gyda'n Cyfarwyddwr neu'n Prif Weithredwr i gytuno ar beth i'w wneud.

# Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'n gwasanaethu Cymru a Lloegr fel y gall cyflogwyr a sefydliadau gael gwiriadau priodol ar weithwyr posibl a gwirfoddolwyr a ddaw i gysylltiad yn eu gwaith â phlant ac oedolion bregus. Mae modd defnyddio offeryn cymhwysedd y gwasanaeth i ddarganfod pa swyddi neu weithgareddau a allai fod yn gymwys i gael gwiriad sylfaenol, arferol neu fanylach. Mae'r gwasanaeth ar gyfer sefydliadau ac elusennau (cwmnïau) sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru neu Loegr i'w helpu i wneud penderfyniadau am gyflogi pobl.

Mae gennym staff sydd wedi'u hyfforddi i gynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service